# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrew Stevens | **Adran Etholiadol:** | Penyrheol |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol rheolaidd, ynghyd â chynnal cymorthfeydd achlysurol ar y stryd gyda fy nghydweithwraig ward, Jan Curtice. Rydym hefyd wedi cefnogi preswylwyr i ymdrin â materion amryfal, gan gynnwys y canlynol:

- Problemau gyda'r cynllun tai ac adnewyddu
- Problemau ffiniau a draenio
- Parcio, taflu sbwriel yn anghyfreithlon
- Atgyweirio palmentydd a phriffyrdd
- Diogelwch y briffordd
- Coed sydd wedi gordyfu
- Llinellau melyn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda swyddogion ar gynllun i liniaru pryderon diogelwch wrth gyffordd Brynafon â Heol Frampton, y bydd y cynllun yn cynnwys gwaith palmentydd, cyrbau isel, rheiliau diogelwch a chroesfan sebra. Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio i ymdrin â phroblemau goryrru ymhellach i lawr Heol Frampton. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda swyddogion a chyrff allanol i ymdrin â phroblemau goryrru ledled Pengelli ac rydym yn ceisio gwella cyfleusterau ym Mharc Golden Grove.

Rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Gyngor Tref Gorseinon i helpu i wella'r ardal chwarae newydd ar Heol Gower View ac rydym wedi gwella'r cyfleuster bellach drwy docio'r ardal o'i blaen, ychwanegu meinciau picnic a rhoi teledu cylch cyfyng ar waith.

Rydym wedi ariannu beiciau cydbwyso, sgwteri a gorsaf cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Penyrheol. Rydym hefyd wedi ariannu cyfarpar chwarae ar gyfer Clwb Cymdeithasol Pengelli, ariannu ailaddurno campfa baffio Penyrheol a chyfrannu at Gynllun Ceir Cymunedol Gorseinon.

Rydym yn fwy na pharod i gefnogi'r gwaith gwych y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud yn ein cymuned.

Fel aelod o Gyngor Tref Gorseinon, sicrheais gyllid grant i osod llwybr pwmpio BMX ym Melyn Mynach, un o'r rhai mwyaf yn y wlad.

Ar ôl ymgynghori, gosodon ni feinciau coffa i nodi 100 o flynyddoedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf mewn lleoliadau allweddol ledled y ward, ynghyd â bin a hysbysfwrdd addurnol ym Mhengelli.
Rwy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyson ac rwy'n eu defnyddio'n llwyddiannus iawn i hyrwyddo gweithgareddau ward ac annog rhyngweithio ag etholwyr.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Is-gadeirydd y PDP Trawsnewid
Maer Cyngor Tref Gorseinon 2017/18
Cyrff Llywodraethu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Penyrheol
Cynllun Datblygu Gwledig.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Yn 2017, agorais i fy fferm laeth i'r ysgolion cynradd lleol yn fy ward i addysgu plant rhwng 6 ac 11 oed am rôl amaethyddiaeth yn ein heconomi ac mae gennyf gynlluniau pellach i gynnal mwy o ymweliadau yn y dyfodol. Trefnais i'r Twrnamaint Rygbi Cyffwrdd Coffáu Decky, sy'n cael ei gynnal yn flynyddol, a chymerais i ran ynddo. Mae ef wedi codi £8000 ar gyfer PABM hyd yn hyn ac, yn ystod fy nhymor fel Maer Tref Gorseinon, codais i dros £13,000 ar gyfer gofal cardiaidd yn PABM.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Ffermwr llaeth 3edd genhedlaeth ydwyf ac rwy'n dod o Fferm Llannant ym Mhenyrheol ac mae'n anrhydedd i mi gynrychioli'r ward lle mae fy nheulu wedi byw a gweithio ynddi ers dros 75 o flynyddoedd. Astudiais i amaethyddiaeth a bûm yn gweithio yng Nghaergaint, Seland Newydd. Rwyf hefyd yn hoff iawn o chwaraeon ac rwyf wedi chwarae rygbi'n lleol am y 25 mlynedd diwethaf. Gan ystyried fy mhrofiad o ffermio a rygbi, rwy'n credu bod fy etheg waith gref a'm gallu i weithio mewn tîm wedi fy helpu'n fawr yn ystod fy rôl fel aelod ward Penyrheol. Rwyf hefyd yn frwd dros Dechnoleg Gwybodaeth ac, yn ystod fy amser hamdden, rwyf wedi ennill profiad mewn caledwedd a meddalwedd megis adeiladu cyfrifiaduron, dylunio gwefannau a gwybodaeth sylfaenol am godio.

## Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,400

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22/10/2018 |